

TAG ADDYSG GORFFOROL

CANLLAWIAU I UNEDAU PE2

Teitl y Cynnwys: Personoliaeth

Pwyntiau allweddol

- Damcaniaethau personoliaeth
- Proffiliau personoliaeth
- Cyfynigadau proffiliau personoliaeth

Cymhwysiad Ymarferol/Esboniad

DIFFINIAD – ‘Mae personoliaeth yn cynrychioli nodweddion person sy’n cyfrif am batrymau cyson o ymddygiad,’ Pervin (1993). Mae’n sefydlog, yn barhaol ac yn unigryw i bob unigolyn.

Mae **DAMCANIAETHAU PERSONOLIAETH** yn ymwneud â sut y ffurfir personoliaethau.

DAMCANIAETH NODWEDDION e.e. Eysenck, Cattell. DWY brif ddybiaeth:

- Mae personoliaeth unigolyn yn cynnwys rhai nodweddion allweddol (nodweddion parhaol sefydlog person).
- Mae’r nodweddion hyn yn enetig eu natur h.y. cewch eich geni â nhw. Enghreifftiau o nodweddion yw **allblygedd** (bywiog, cymdeithasol, rhadlon, byrbwyll) a **mewnblygedd** (tawel, goddefol, yn hoffi ufuddhau i reolau).

DAMCANIAETH DYSGU CYMDEITHASOL – Bandura. Mae hon yn nodi bod pobl yn ymddwyn yn wahanol mewn sefyllfaoedd gwahanol a bod personoliaeth yn cael ei dysgu drwy DDYSGU ARSYLWADOL, MODELU a PHROFIADAU DIRPRWYOL (*vicarious*).

DAMCANIAETH RYNGWEITHIOL – mae hon yn gymysgedd o NODWEDDION a DYSGU CYMDEITHASOL. Mae’n nodi bod ymddygiad yn ganlyniad i ryngweithiad nodweddion personoliaeth a’r amgylchedd. Mae’n awgrymu’r syniad bod personoliaeth yn gynnryrch NATUR a MAGWRAETH.

PROFFILIAU PERSONOLIAETH – weithiau fe’u gelwir yn brofion seicometrig, maen nhw’n fodd i fesur personoliaeth unigolyn mewn sefyllfa benodol. Maen nhw’n fesur o ymddygiad. Enghraifft o brofion personoliaeth yw **Holiadur Personoliaeth Eysenck**. Mae’r prawf hwn yn galluogi nodi dimensiynau personoliaeth e.e. mewnblyg/allblyg; sefydlog/niwrotig. Enghraifft arall yw **Holiadur 16 Ffactor Personoliaeth Cattell** – mae hwn yn mesur personoliaeth gan ddefnyddio 16 ffactor. Hefyd gellir mesur personoliaeth drwy arsylwi.

BUDDION PROFFILIAU PERSONOLIAETH

- Gallen nhw gael eu defnyddio i argymhell cymryd rhan mewn chwaraeon a gallen nhw helpu i arwain person tuag at ffordd fywiog, iach a chytbwys o fyw.
- Yn effeithlon o ran amser.
- Cewch ddealltwriaeth ddofn o bob unigolyn.
- Maen nhw'n nodi cryfderau a gwendidau personoliaeth.
- Y math o hyfforddi/arwain/ymarfer mae'r mabolgampwr yn ymateb orau iddo.
- Llunio strategaethau i helpu mabolgampwr i gyflawni potensial e.e. rheoli pryder.

CYFYNGIADAU PROFFILIAU PERSONOLIAETH

- Dydyn nhw ddim yn rhagfynegydd cywir o'r bobl sy'n debygol o gymryd rhan neu ragori mewn chwaraeon neu weithgaredd corfforol.
- Wrth lenwi holiaduron, dydy llawer o bobl ddim yn ymateb yn onest!
- Mae canlyniadau proffilio fel arfer yn oddrychol. Gall barn bersonol ddylanwadu ar gasgliadau ac nid yw casgliadau wedi'u hategu gan dystiolaeth wyddonol.
- Mae perygl y gall proffilio stereoteipio person.

Awgrymiadau:

Wrth ateb cwestiynau ar bersonoliaeth, mae'n bwysig rhoi enghreifftiau o nodweddion posibl wedi'u cysylltu â'r damcaniaethau e.e. yn achos damcaniaeth nodweddion, bydd person allblyg yn aml yn arddangos nodweddion arweinyddiaeth, tra yn achos damcaniaeth dysgu cymdeithasol, gall chwaraewr ddod yn fwy ymosodol os yw mewn tim sydd â llawer o chwaraewyr ymosodol eraill ayb.



Cwestiynau ar arddull cwestiwn arholiad

1. Ddisgrifiwch **ddwy** ddamcaniaeth personoliaeth ac eglurwch sut y gall **pob un** ddylanwadu ar ymddygiad mewn chwaraeon. [4]

2. Eglurwch fanteision ac anffanteision defnyddio proffilio personoliaeth mewn chwaraeon. [3]

Atebion